

Papur Pawb

Pris: 50c

Rhagfyr 2017

Rhif 434



Stondin
Cymdeithas y sioe
yn Ffair y Neuadd.
adroddiad ar
dudalen 9

tud 4

Cardiau Nadolig

tud 8

Gŵr y Gair

tud 10

CFFI

tud 12

Cap dros Gymru

Siop i ail agor

Mae deg mis wedi pasio ers i siop Tal-y-bont gau ond gall *Papur Pawb* ddatgelu fod y drysau i'w hagor unwaith eto yn fuan iawn.

Mae'r tenant newydd, gŵr rhadlon o'r enw John, wedi cael ychydig o drafferth wrth drefnu cwmni cyflenwi ar gyfer y siop ond mae'n disgwyl datrys y broblem cyn bo hir.

Daw John a'i wraig Maria yn wreiddiol o Sri Lanka ond maent wedi byw yng Nghymru ers rhai blynnyddoedd. Ar hyn o bryd mae'n rheoli dwy siop yn Aberystwyth, felly mae'n brofiadol iawn yn y maes.

Ei fwriad yw darparu bwydydd ffres wedi'u darparu'n lleol, lle mae hynny'n bosibl, ynghyd â gwerthu bwyd a diodydd cyffredinol. Yn ogystal, bydd yn gwerthu papurau newydd a chylchgronau.


Bwriada hefyd gyflogi staff lleol.

Yn anffodus ni fydd modd iddo gynnal gwasanaeth post ar y cychwyn ond mae'n obeithiol y gellid trefnu hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad agor.

Bydd trigolion Tal-y-bont yn gyffredinol yn falch o glywed y bydd y siop leol ar agor unwaith eto a dymunir yn dda i John a'i deulu yn yn fenter.



John a Maria a'u merch fach Melanie tu allan i'w siop yn Aberystwyth



"Mae hyn yn gwneud y gwaith yn dipyn haws!"

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028

Eglwysfach/Ffwrnais: Swydd wag
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgriadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezzer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweifyr (@papurpawb)

CYMRAG

Taith Gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Cynhaliwyd taith gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru o gwmpas pentref a phlwyf Elerch Bont-goch yng ngogledd Ceredigion ar brynhawn Dydd Sul, 26 Tachwedd, dan arweiniad Richard Huws. Gan ddechrau o eglwys hanesyddol St. Pedr, aethpwyd drwy'r pentref i gyfeiriad Penrhyn-coch cyn troi ger Tanybwllch i fynd heibio Carregydifor, a chroesi'r afon Leri ger rhaeadr y Rhydgoch. Cerddwyd ar y ffordd fawr heibio Plas Cefn Gwyn i gyfeiriad Cwmere hyd at Bontbrengeifr a hen gapel Sion (Fronallt), cyn anelu am unigeddau Cwm Tŷ-nant. Ar ôl mynd heibio olion Cwmere Bach, aethpwyd drwy'r goedwig cyn dod ar draws adfeilion tyddynnod Pantycelyn, Rhydyronnen a Llwynbedw. Dychwelwyd heibio Moelgolomen a Thŷnewydd, ac ymlaen at Bwlchrosser cyn cyrraedd eto i'n man cychwyn. Taith o dair awr a 13,000 o gamau! Er yn wlyb dan draed cafwyd prynhawn sych.



Mae modd dilyn y daith yn fanylach yn llyfr diweddar Richard, *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch)*, sydd ar gael mewn nifer o siopau llyfrau Cymraeg a siopau lleol, pris £9.99, neu drwy wefan Cyngor Llyfrau Cymru: www.gwales.com

Os am ymuno â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru cysyllter gydag Angharad Fychan ar angharad.fychan@gmail.com £10 yw'r tâl aelodeath blynnyddol.

CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT
Cyngerdd Nadolig a Noson Goffi
£3 - oedolion
Plant am ddim
Yn gynnwys poned a mins pet

Ffair Crefftau
Raffl
Stondin Gacennau
Cynnyrch Cartref
Tombola

Neuadd Goffa Tal-y-bont
11/12/2017
6.30 yh
Croeso cynnes i bawb

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

PLYGAIN MORLAN
7.30, nos Fercher, 20 Rhagfyr
Croeso i bawb i ddathlu'r Nadolig
yn ein Plygain draddodiadol.

CRÊD A GWEITHRED
4-25 Ionawr (oriau agor i'w
cadarnhau)
Arddangosfa yn ymwneud â
gwrthwynebwyr cydwybodol,
recriwtio, heddwch a dal eich tir
yn yr Rhyfel Byd Cyntaf.

morlan.cymru
01970-617996; post@morlan.cymru

Dyddiadur

RHAGFYR

- 9 Bore Coffi** 10.30 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
Cinio Nadolig Henoed Plwyf
Llangynfelyn 12 Wildfowler,
Tre'r-ddôl
- 10 Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 5 Uno yn Rehoboth
Rehoboth 5 Gweinidog
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
(Cymraeg)
- 11 Merched y Wawr Tal-y-bont**
a'r Cylch 'Aloe Vera' (Manon
Reynolds)
Cylch Meithrin Tal-y-bont
6.30 Cyngerdd Nadolig a
Noson Goffi yn Neuadd
Goffa Tal-y-bont
- 12 CFFI:** Canu carolau
Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Naws y Nadolig'
(Ina a John Tudno Williams)
- 13 Pwyllgor Rheoli Neuadd**
Goffa Tal-y-bont 8
- 14 Dosbarth Tai Chi** 2.30
Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 16 Gwasanaeth Carolau**
Cymunedol 4 Cletwr
- 17 Bethel** 2 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Rhidian
Griffiths
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 4.30 Gwasanaeth
Carolau a lluniaeth i ddilyn
yng Nghastell Glandyfi
- 19 CFFI:** Canu carolau
- 20 Gyrfa Chwist y Sioe** 8
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 21 Bingo** 7.30 Wildfowler,
Tre'r-ddôl
- 24 Bethel** 5.30 Oedfa Nadolig yr
Ysgol Sul
Nasareth 5.30 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Ifan Mason
Davies
- 25 Bethel** 10 Gweinidog
Eglwys Sant Pedr, Elerch 8
y.b. Cymun Bendigaid Bore
Nadolig
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid

Os am gynnwys manylion
am weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

- 28 Bingo** 7.30 Wildfowler,
Tre'r-ddôl
- 29 Cwis** 8 Wildfowler,
Tre'r-ddôl
- 31 Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 Oedfa gymun yr
ofalaeth yn y Garn
Rehoboth 10 Oedfa gymun
yr ofalaeth yn y Garn
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
(Cymraeg)
- IONAWR**
- 2 Sefydliad y Merched Taliesin**
Noson aelodau a
phenderfyniadau
- 5 Cangen Plaid Cymru**
Rhydpennau, Welsh Black,
Bow Street, 7.30: Noson i
groesawu 2018 yng nghwmni
ein Haelod Seneddol Ben
Lake. Darperir lluniaeth
ysgafn.
- 7 Bethel** 10 Uno yn
Nasareth
Nasareth 10 Gweinidog
Rehoboth 10 Uno yn
Nasareth
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- 9 Cymdeithas y Chwiorydd**
Rehoboth 'Hanes y Plygain'
Rhiannon Ifans a Trefor Puw
- 11 Bingo** 7.30 Wildfowler,
Tre'r-ddôl
- 12 Sesiwn Nos Wener**
Gig Basgaid gyda Band y
Bont/Banda Zubia
8 Y Llew Gwyn
Clwb Ieuenctid Neuadd
Goffa Tal-y-bont 6.30

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i fy ffrindiau a
holl ddarllenwyr *Papur Pawb*
oddi wrth Kathleen Richards,
Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn
medru danfon cardiau eleni,
ond byddaf yn rhoi cyfraniad
tuag at elusen.



Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Gwyn a Fal gyda Ceri yn dylunio.
Golygyddion mis Ionawr fydd Mair
(mair.n@btinternet.com), Beryl
(ffermglanrafon1@btconnect.com) a
Lisa (LizaAwelon@outlook.com).
Mae Lisa Tomos yn aelod newydd o'r
tîm golygyddol felly croeso mawr
iddi hi. Y dyddiad cau ar gyfer
derbyn newyddion fydd dydd
Gwener 5 Ionawr a bydd y papur ar
werth ar 12 Ionawr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i'r gwenynwr o fri, Richard Spencer, Tŷ Manceinion, Tre Taliesin, am serennu yn Sioe Fêl Flynyddol Cymdeithas Gwenynwyr Aberystwyth ym mis Hydref. Enillodd Richard wobwr 'y gorau yn y sioe' gyda'i fframaid o fêl sy'n addas i'w dynnu a hefyd am y mêl oedd yn blasu orau yn y sioe.

Croeso

Croeso cynnes iawn i Jessica ac Ed a'u plant Arthur, Eric a Zoë sydd wedi symud i fyw i Dŷ Celyn, Tre Taliesin o Dre'r-ddôl yn ddiweddar. Gobeithio y byddan nhw'n hapus iawn yma.

Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Karen Egan, Ger-y-nant, Bont-goch sydd newydd ymddeol ar ôl gyrfa o 22 mlynedd ac 11 mis gyda Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Ar y Dibyn

Bydd Cian Llywelyn, Is-y-coed, Tal-y-bont gynt, yn ymddangos ar gyfres nesaf *Ar Y Dibyn* a ddarlledir ar S4C. Bydd Cian, sydd yn awr yn byw yng Nghaernarfon, yn un o wyth cystadleuydd a fydd yn brwydro yn erbyn ei gilydd mewn cyfres o sialensau awyr agored i ennill gwobr o £10,000. Bydd *Ar Y Dibyn* yn cychwyn ar S4C ym mis Ionawr.

Ennill Doethuriaeth.

Braf gweld Oliver Lamb wedi dod adre i Glandŵr, Tal-y-bont am gyfnod. Tybed ai wedi dod adre i ddathlu gyda'r teulu y mae e gan ei fod newydd glywed iddo ennill ei ddoethuriaeth? Llongyfarchiadau Oliver a phob dymuniad da i ti ym mis Ionawr pan y byddi'n dechrau ar dy swydd newydd yng ngogledd America. Braf gweld cyn ddisgybl Ysgol Tal-y-bont yn llwyddo.

Ŵyr bach newydd sbon!

Ar 3 Tachwedd ganed mab bach, Ianto Idris Baur i Siona a'i gŵr Simon, sy'n byw yn yr Almaen. Mae Siona'n ferch i Sandra a Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i mamgu a thadcu a phob dymuniad da i'r teulu bach. Braf clywed y byddant yn ymweld â Thal-y-bont dros y Nadolig.

Pobl a Phethe



Priodas

Ar y 3 Tachwedd yn Nhŷ mawr, Llysfaen ger Caerdydd priodwyd Gareth Roberts, mab John a Jill Roberts, Felinlifio, Tal-y-bont, gyda Lowri Rees sy'n dod o Bontiets. Mae Gareth yn dysgu Cerdd yn Ysgol Glantaf am 3 diwrnod yr wythnos ac hefyd yn gweithio fel cerddor llawrydd yn cyfansoddi ac yn perfformio o gwmpas ardal Caerdydd. Y mae Lowri hefyd yn athrawes ac yn Bennaeth Celf yn Ysgol Glantaf. Y mae'r pâr priod gyda Macsen, mab Lowri, wedi ymgartrefu yn ardal Llandaf, Caerdydd.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol o garolau a llithoedd yn Eglwys Elerch ar 3 Rhagfyr dan arweiniad Y Parchg Lyn Lewis Dafis, gydag Elisabeth wrth yr organ. Daeth cynulleidfada dda o dros 30 ynghyd, ac roedd hi'n braf gweld cymaint o deuluoedd ifanc a phlant y pentref yn bresennol. Darllenwyd y llithoedd gan Alex, Caiomhne, Evie, Lilliana a Siôn, a bu Oisín yn casglu. Bu'r plant eraill yn cynorthwyo Lyn gyda'i neges amserol i greu cadwyn bapur i gynrychioli'r Adfent. Cyflwynir y casgliad o £120 tuag at Uned Gemothherapi Newydd Ysbyty Bronglais.

Seren y sgrin

Mae llwyddiannau Dewi Jenkins, Tŷ'n graig, Tal-y-bont yn y byd amaethyddol ac ar lwyfannau yn hysbys ers tro byd i ddarllenwyr Papur Pawb ond 'nawr mae wedi mynd gam ymhellach gan iddo gael ei raglen deledu ei hun ar S4C! Darlledwyd rhaglen gyfan yn dangos Dewi, ei waith a'i ddiddordebau ar 'Cefn Gwlad'. Rhaglen ardderchog a braf gweld aelodau eraill y teulu ar y sgrin. Ond oedd y golygfeydd o Dal-y-bont yn edrych yn dda? Ni'n hynod o lwcus cael byw yn yr ardal brydferth hon.

Yn yr ysbyty

Braf gweld fod Ellen Davies, Maesyderi, wedi gwella ar ôl bod am gyfnod byr yn yr ysbyty. Mae'n siwr fod pawb yn y Cylch Meithrin yn falch o'i gweld yn ôl yno.

Anfonwn ein cofion gorau i Dilys Morgan, Alltgoch sydd yn dal i dderbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais.

Penblwydd hapus

Pob dymuniad da i Marion Evans, Tŷ Nant a ddathlodd benblwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!

Yr un dymuniad i Innes Heron, Crud yr awel, Taliesin a fu hefyd yn dathlu penblwydd arbennig.

Cydymdeimlo

Yn frawychus o sydyn ar ddydd Gwener 24 Tachwedd bu farw Alun Jones, Llwynglas, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Janet ei weddw, ei ferch Ceri a'i gŵr Dylan, a'r wyrion bach, Osian a Gruffudd. Byddwn yn cynnwys teyrnged yn rhifyn nesaf y papur.

Croeso

Croeso cynnes i Sue, Abigail a David Davies sydd newydd symud i fyw i 7 Maes-y-felin, Tal-y-bont o Dywyn. Mae'n siwr bod Tara, Eifion a Miri Lois (yr wyres fach) wrth eu bodd yn cael mam a mam-gu yn byw mor agos.

Ar y radio

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf at y cysylltiadau lleol â'r gyfres radio ar y Rhyfel Byd Cyntaf, *Cymru 1914-1918*, a ddarlledwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Roedd llais arall lleol i'w glywed hefyd, sef Eiriona Metcalfe, Taliesin, a fu'n sôn am ei thad J M Davies. Er i'r gyfres ddod i ben am eleni (bydd cyfres arall ddiwedd 1918), mae modd clywed y cyfan ar BBC i-player.

Mae **Eleri a Gwilym**, Meisgyn, yn dymuno **Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda** i'w holl ffrindiau yn ardal Papur Pawb. Pob dymuniad da!





Cardiau Nadolig Lois

Gyda'r Nadolig yn nesáu bydd cyfle i ddymuno cyfarchion yr ŵyl i ffrindiau a theulu drwy anfon cerdyn arbennig atynt. Eleni mae un o bobl ifanc ardal Papur Pawb wedi manteisio ar ei thalentau creadigol i greu cyfres o gardiau Nadolig Cymraeg at yr achlysur.

Graddiodd Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont o Brifysgol Caerdydd y llynedd a phenderfynodd gymryd blwyddyn o hoe cyn parhau i ddilyn gyrfa ym myd Cyfrifeg.

Dwedodd Lois "Dw i with fy modd yn peintio ac ati, mae troi at rywbeth creadigol ar ôl treulio cyfnod o weithio gyda ffigurau yn beth hyfryd i fedru ei wneud."

Wrth ddarllen adroddiadau diweddar yn y wasg gellir dweud fod elfen 'greadigol' iawn yn yr hyn y mae nifer o gyfrifwyr ein gwlad yn ei wneud yn cynorthwyo eu cleientiaid i osgoi talu trethi mawr. Ond braf yw gweld fod yr elfen greadigol sydd gan Lois yn cynorthwyo'r rhai ohonom sy'n dymuno anfon cyfarchion yr ŵyl at eraill gyda chariad a diffuantwrwydd.

Mae Lois wedi creu tri chynllun arbennig gan ddefnyddio delweddau o dorchau naturiol o blanhigion y tymor mewn dyfrlliw. Argraffwyd y cardiau'n broffesiynol gan Y Lolfa ac mae nifer cyfyngedig ar werth mewn nifer o siopau yn yr ardal. Hefyd mae modd archebu yn uniongyrchol gan Lois drwy gysylltu â hi ar 01970832760 neu loisjonesh@gmail.com

Pris y cardiau yw £1.50 yr un neu 6 am £8.00.

Arlunwraig Brysur



Mae Ruth Jên yn arlunwraig brysur iawn y dyddiau hyn gyda dwy arddangosfa o'i gwaith yn cael eu cynnal yn y Morlan, Aberystwyth yn Nhachwedd a Rhagfyr. Dyma hi gyda rhai o'r lluniau sy'n nodweddiadol o'i steil unigryw.

Roedd gyrrwr y car hwn, Subaru Impreza, yn ffodus iawn i osgoi anaf wrth iddo golli rheolaeth ar y ffordd fawr ger Ffwrnais am 7.45 fore Gwener 17 Tachwedd. Roedd yn ffodus hefyd i beidio â tharo car arall.



Ysgol Tal-y-bont



Ymweliad Awdures



Ffair y Neuadd



Sustrans Cymru



Diwrnod Plant Mewn Angen



Taith i'r Dref

Ysgol Tal-y-bont

Ymweliad Awdures

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu'r awdures llyfrau plant Meleri Wyn James i'r ysgol yn ystod y mis. Roedd y plant wrth eu boddau'n gwrandio ar hanesion y cymeriad poblogaidd Nel ac wedi gofyn llawer o gwestiynau difyr a threiddgar i Meleri. Roedd yn ymweliad hwyliog a difyr iawn, diolch yn fawr i'r Lolfa am drefnu.

Ffair y Neuadd

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am helpu gyda'r stondin ysgol yn y ffair brysur – yn rhieni a phlant. Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb ar y stondin eleni eto.

Sustrans Cymru

Wedi sefydlu clwb beicio poblogaidd iawn ar ôl ysgol y llynedd, hoffwn eich atgoffa fod Mr Malcolm Dines yn rhedeg clwb ar fore dydd Sadwrn ar iard yr ysgol ar hyn o bryd. Croeso i blant yr ysgol fynychu.

Ysgol Iach – Gala Nofio'r Urdd

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd yng Nghanolfan Palscrug eleni eto. Mae hon yn gystadleuaeth ranbarthol gyda phob ysgol yng Ngheredigion yn cystadlu ac roedd y safon yn eithriadol o uchel. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gymryd rhan a gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r profiad.

Wythnos Gwrth-fwlio

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio.

Wythnos Diogelwch ar y We

Ac ar yr un wythnos roedd hi'n wythnos i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we a gwefannau cymdeithasol yn ofalus. Diolch i'r athrawon am drefnu gweithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnos yma.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo smotiau i'r ysgol ar ddiwrnod plant mewn angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn gyda llawer o weithgareddau bywiog i godi ymwybyddiaeth o'r achos da. Diolch i bawb am gyfrannu'r cacennau blasus. Codwyd £140 tuag at yr elusen eleni.

Taith i'r Dref

Cafodd dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen ddiwrnod wrth eu boddau'n ymweld ag archfarchnad Tesco yn ystod y mis. Roedd yr ymweliad yn rhan o ddydd mwy am fwyd ac yn enwedig o ble mae bwyd yn cael ei gynhyrchu ar draws y byd cyn ein cyrraedd ni yn y siopau. Cafodd y plant weld yr hyn sy'n digwydd i'r bwyd ar ôl dadlwytho'r loriau ac fe gafodd sawl un y cyfle o weithio ar y til hefyd!

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553



Tîm cwis llwyddiannus y gangen: Megan, Fal, Carys ac Ann

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

Braf oedd cael cwmni nifer o aelodau Gwawr Y Pennau i ymuno â ni ar gyfer y cyfarfod ar 20 Tachwedd. 'Roedd y noson wedi ei threfnu gan Eryl Evans a Diana Jones. Cawsom y cyfle i ddymuno'n dda i Elisabeth Evans a fydd yn ymddeol o'i swydd gyda'r Mudiad fel Swyddog Hyrwyddo/Datblygu Ceredigion a Phenfro ar ddiwedd y flwyddyn. Llongyfarchwyd Ann Humphreys, Carys Briddon, Megan Mai, a Falyri Jenkins sef y merched a gymerodd ran yn y Cwis Hwyl ar eu llwyddiant gan iddynt ennill 84 o farciau a dod yn ail yn y Sir.

Ein gwraig wadd oedd Elin Angharad o Fachynlleth. Croesawyd hi atom gan Eryl Evans. Mae Elin wedi graddio o Brifysgol Metropolitan Caerdydd ers yr haf ac yn awr yn dechrau ar ei busnes ei hun. Soniodd am y cwrs yn y coleg a sut iddi gael profiadau o weithio ar bob math o decstiliau a deunyddiau cyn penderfynu arbenigo mewn gwaith lleddr. Soniodd sut y bu yn Moroco, a gweld pobl yno yn gweithio ar leddr. Hefyd i Sain Fagan lle bu'n dysgu gwneud clocs cyn cael profiad gwaith pellach wrth wneud esgidiau lleddr mewn siop arbennig ym Machynlleth. Bu'n gwneud bagiau gan ailgylchu hen leddr a lleddr newydd ac erbyn hyn, mae ei bagiau ar werth mewn rhai siopau yn yr ardal.

Diolchwyd iddi gan Diana Jones.

Diana Jones

Lle mae'r Gadair?

Mae Cyngor Cymuned Ysguborycoed wedi bod yn trafod y gadair eisteddfodol a arferai sefyll yn Ysgol Eglwysfach cyn iddi gau yn yr 1980au. A oes gan ddarllenwyr *Papur Pawb* syniad beth ddigwyddodd iddi? Mae'r manylion ar dudalen 8 o'r rhifyn hwn a byddai'r Cyngor yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth.

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins

07958 701861

llionjenx94@hotmail.co.uk



Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Tre'r ddôl: Atgofion a hen luniau

Mae David Rowlands wedi byw yn Awstralia ers bron i hanner canrif ond ni cholodd ei gariad at ei hen gynefin ac mae iddo gysylltiadau teuluol gyda'r ardal hon. Gofynnwyd iddo lunio erthygl am y cysylltiadau hyn a dyma'r canlyniad:

"Hoffwn rannu gyda chi ychydig o atgofion a rhai hen luniau o Dre'r ddôl. Rwyf wedi byw yn Awstralia ers 1969 ond cefais fy ngeni yn 1952 yn Aberystwyth. Cefais fy magu yno gan fynychu Ysgol Ardwyn rhwng 1963 ac 68. Roedd fy nheidiau a neiniau ar ochr fy mam (Mary a William Thomas) yn byw ym Mrynawelon, Tre'r ddôl (y drws nesaf i'r Commercial, fel y gelwid y Wildfowler yn y cyfnod hwnnw). Roedd teulu Taid wedi byw yn yr ardal ers sawl cenhedlaeth ond daeth fy nain o Benrhyndeudraeth. Byddwn yn ymweld â'm taid a'm nain yn rheolaidd, yn enwedig ar ddydd Sadwrn, nes iddynt farw ym 1966 ac 1967. Roedd taid yn arfer mynd â mi ar gyfer teithiau cerdded a dwi'n cofio i ni fynd i fynyr bryn i weld Bedd Taliesin. Gallaf hefyd gofio gweld gwiwer goch un diwrnod, wrth i mi ymlwybro'n dawel ar ben fy hun i fynyr Cletwr. A oes modd eu gweld yno heddiw?



William Thomas

Ganwyd Taid ym 1882 a mynychodd ysgol Llangynfelyn. Dyma lun ohono'n ddyn ifanc. Amcangyfrifaf i'r llun gael ei gymryd oddeutu 1912. Bydd darllenwyr *Papur Pawb* yn sylwi mai llun a gymerwyd gan E O Jones, ffotograffydd cynnar o'r ardal, yw hwn. Ysgrifennodd Hefin Llwyd lyfr gwych ('Un Ennyd Fer') am E O Jones ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae gen i lun hefyd (un arall gan E O Jones) a gafodd ei gymryd, mae'n debyg, ar yr un achlysur a llun fy nhaid. Roedd fy niweddar fam (Catherine) o'r farn mai Tommi Pugh, dyn busnes o Daliesin, a ffrind i'm Taid, yw hwn. Efallai y gallai rhywun gadarnhau hynny?

Pan oeddwn yn fachgen, roeddwn yn arfer teithio ar ben fy hun i Dre'r ddôl o Aber ar fws deulawr gwyrdd Crosville, dan ofal gwyliadwrs y *conductor* Aneurin Morgan. Rwy'n deall mai'r gyrrwr fel arfer oedd Bert Cadman, a oedd yn byw yn Nhal-y-bont. Rwyf hefyd yn cofio gweld yn yr 1960au cynnar neu ganol - bws Crosville yn aros dros nos yn Garej Davmor.



Tommi Pugh



Hen gartref teuluol Taid yn Nhref'r ddôl oedd y Villa Frongoch, yn union gyferbyn â Brynawelon. Dyna lle y bu ei daid ef (William Thomas, 1810-94, a gladdwyd yn Llangynfelyn) hefyd yn byw. Rwyf yn amau bod tad yntau (William Thomas, marw 1849) yn byw yno hefyd. Daw'r hen lun hwn o Dre'r ddôl o gerdyn post a bostiwyd ym 1907. Rwy'n credu mai'r prif wahaniaeth rhwng hynny a nawr yw Villa Frongoch, a oedd yn fwthyn gwyngalchog (ar y chwith o'r llun) yn y dyddiau hynny. Cyn belled ag y gallaf weithio allan, ailadeiladwyd y tŷ gan fam Taid yn 1927, yn union ar ôl i dad Taid farw. Rwy'n credu ei bod newydd etifeddu rhywfaint o arian gan ei chefnider Richard James, capten llong a oedd wedi ymddeol i'r Borth (mae wedi'i gladdu yn Llandre).

 HUW LEWIS M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batrîs Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	 TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221	Rhodfa'r Parc	

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaernïol
 Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
 estyniadau ac addasiadau

 Gellimanwydd, Talybont,
 Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Sylwch ar y garreg y mae ei brig yn weladwy yng nghornel dde y llun, ar ymyl y palmant sydd wedi'i osod o flaen y Commercial / Wildfowler. Roedd hynny'n dal i fod yno pan gymerais lun o'r un fan yn 2003. Deallaf fod cerrig fel hyn wedi eu gosod er mwyn atal cerbydau rhag troi'n rhy agos at adeiladau ac achosi difrod.



Mae gen i un llun hynach o Dre'r ddôl, hefyd gan E O Jones. Yn amlwg, mae'n rhaid ei fod wedi'i gymryd cyn 1914 (pan fu E O Jones farw) ond nid oes gennyf gliwiau eraill ynglŷn â'i ddyddiad. Y peth mwyaf diddorol amdano i mi yw'r adeilad gyda'r to gwyn ar oled y tu ôl i Brynawelon ar ddau fwthyn arall yn y rhes. Nid wyf yn gwybod beth allai hwn fod!



Yn olaf, yr wyf yn falch o ddweud bod gen i gopi o'r hen lun yma o blant Côr Taliesin ar eu ffordd i Eisteddfod Tywyn ym Mehefin 1912. Mae hefyd yn ymddangos yn llyfr Hefin Llwyd, (t. 39) a hefyd yn 'Aberystwyth a Gogledd Ceredigion mewn hen luniau' (Cyngor Sir Dyfed 1992, t. 140). Mae'r olaf yn nodi Taid (yn sefyll i'r chwith yn y blaen, gyda'i ddwy law yn weladwy). Ymfudodd yntau i Awstralia ym mis Rhagfyr 1912. Er iddo ddychwelyd - gyda theulu - yn 1930, yr wyf yn amau nad oedd fy nain eisiau gadael Awstralia. Efallai y bydd hynny'n rhannol esbonio pam fy mod i yma yn Canberra heddiw.

David Rowlands

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Clwb Ieuenctid

Cynhaliwyd cyfarfod nos Wener, 1 Rhagfyr, yng ngwaelod y Neuadd Goffa, Tal-y-bont i drafod y syniad o ail gychwyn clwb ieuenctid gwirfoddol yn y pentref. Roedd y cyfarfod yn agored i drigolion lleol, ac mi fynychodd saith person, gyda phedwar yn danfon eu hymddiheuriadau. Trafodwyd y posibiliad o ail gychwyn y clwb ym mis Ionawr, a gyda chefnogaeth aelodau o'r pentref, sy'n barod i wirfoddoli ychydig o'u hamser i ddatblygu'r clwb, mae'r clwb yn gobeithio dechrau ar 12 Ionawr 2018. Bydd y clwb yn agored i bobl ifanc rhwng 10-16 oed yn y man cyntaf. Caiff y clwb ei dreialu am dri mis cychwynnol, a bydd yn cyfarfod bob nos Wener yng ngwaelod y neuadd rhwng 6.30-8.30yh. Bydd y clwb am ddim i bobl ifanc, a bydd gwahanol weithgareddau ar gael iddynt. Bydd cyfle nawr cyn y flwyddyn newydd i wneud trefniadau ar gyfer y clwb er mwyn dechrau ym Mis Ionawr. Os oes gyda chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu drwy ebostio lowri_masonevans@hotmail.com neu ffonio 07730667126.

Lowri Mason Evans

Bethel Tal-y-bont

Gydag ymddeoliad y Parchedig Richard Lewis ddiwedd Mawrth 2018 bydd yr Ofalaeth bresennol yn dod i ben gydag eglwysi Annibynnol gogledd Ceredigion yn mynd ati bellach i wneud eu trefniadau lleol eu hunain. Aethpwyd ati i hysbysebu yn ystod yr haf am Arweinydd neu Weinidog Rhan-amser ac er na lwyddwyd i ddenu neb o'r newydd, llawenydd i'r aelodau oedd cael ar ddeall mewn Cwrdd Eglwys ym mis Tachwedd fod Geraint Evans, Garnwen wedi cynnig cynnal gwasanaeth unwaith y mis o Ebrill ymlaen. Mawr yw ein diolch iddo ac edrychwn ymlaen at weld y patrwm newydd yn datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Eisoes y mae Bethel yn cydweithio'n hapus gyda Nasareth er mwyn uno â hwy ddechrau bob mis ac yna ar y trydydd Sul cynhelir Gwasanaeth Teulu a drefnir gan grŵp gweithgar o dan gadeiryddiaeth David Jones, Bwlchdyddwyallt. Roedd gwasanaeth Tachwedd yng ngofal Gwyn a Falyri Jenkins a chafwyd cyfraniadau gan amryw o'r aelodau. Bydd y swyddogion yn bwrw ati yn awr i lenwi gweddill y Suliau trwy geisio ddenu pregethwyr gwadd.

Os oes unrhyw un yn lleol yn dymuno ymaelodi â Bethel mae croeso iddynt gysylltu â'r Ysgrifennydd, Phil Davies, Gwynionydd (832384).

(Ôl nodyn: cynhelir y Gwasanaeth Cymun ar 17 Rhagfyr am 2.00 y prynhawn yn hytrach na'r bore.)

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd y Parchedig Ddr Watcyn James i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth, Taliesin ar brynawn Mawrth, 14 Tachwedd. Teitl ei sgwrs oedd 'O'r Berriw i'r Bryniau', a chafwyd hanes ei daith ef a'i wraig, Lowri, i Cherrapunji yn yr India y llynedd. Pwrpas y daith oedd mynychu dathliadau 175 mlynedd ers dechrau'r genhadaeth yn yr ardal honno. Dechreuodd cenhadon o Gymru deithio i Fryniau Casia yn 1841 ac un ohonynt oedd Thomas Jones o sir Drefaldwyn. Bu ei ddylanwad ef yn fawr ar y bobl drwy eu troi yn gymdeithas lythrennog, ac o ganlyniad i hynny daeth y cyfle i wella bywyd bobl y brynau. Mae dylanwad Cristnogaeth yn parhau yn yr ardal hyd heddiw. Tra'r oedd yno pregethodd Dr James i filoedd o bobl, ac roedd yn wefreiddiol i weld cymaint o gynulleidfa a oedd wedi teithio yno o bell ac agos ar gyfer y dathliad. Ar ôl talu'r diolchiadau ar y diwedd, mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Non Griffiths ac Eirlys Jones.

Cigydd

Porchell

01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

Gŵr y Gair

Daeth bugail newydd i Ofalaeth y Presbyteriaid yng Ngogledd Ceredigion, Y Parch Dr Watcyn James, ac wrth olrhain ei yrfa gellir gweld ei fod yn llwyr haeddu'r disgrifiad gŵr y gair. Mae Watcyn a'i wraig Lowri wedi ymgartrefu bellach yn Eryl, Capel Bangor, er mae'n cydnabod fod sawl bocs o lyfrau yn dal heb eu hagog! Mae ganddynt dri o blant, Andras, sy'n weinidog yng Nghapel Mawr Dinbych, Eryllt, yn feddyg yn yr Wyddgrug a Garmon sy'n astudio am ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ganed Watcyn mewn pentref o'r enw Shantung yn nhalaith Assam yng Ngogledd yr India lle'r oedd ei rieni yn genhadon. Nid yw'n cofio llawer am ei blentyndod ond yn gymharol ddiweddar derbyniodd wahoddiad yn ôl i'r dalaith a chael y profiad o bregethu i dros hanner miliwn! Aeth ei dad wedyn yn weinidog ar eglwys Bresbyteriaidd yn Melbourne, Awstralia, ond dychwelodd y teulu i Lanrhaeadr ym Mochnant, Sir Drefaldwyn, a mynychodd Watcyn Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Roedd ei fryd ar y weinidogaeth a dilynodd gwrs gradd yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Ag yntau prin yn ugain oed, teimlai ei fod yn rhy ifanc i symud yn syth i fwrw gofal dros eglwys. Yn hytrach cychwynnodd ar raglen ymchwil ar John Davies o Lanfihangel yng Ngwynfa, y cenhadwr a dreuliodd dros hanner canrif yn Tahiti, ymchwil a arweiniodd at ei ddoethuriaeth.

Cafodd Watcyn ei ordeinio yn 1983, symud i'w ofalaeth gyntaf yn ardal Crosshands yn 1985 a dyna lle bu am ugain mlynedd tan 2003. Yn unol â phrofiad pob gweinidog, cynyddodd nifer y capeli i gwmpasu addoldai yn Llanedi a Tycroes a symudodd y teulu i Dycroes er mwyn cael bod yng nghanol yr ofalaeth. Y cam nesaf oedd cael ei apwyntio'n Swyddog Datblygu gyda Chymdeithas y Beibl yng Nghymru. Rhan o'i ddyletswyddau oedd ymweld yn gyson â'r Cynulliad i geisio dangos perthnasedd y Beibl a Christnogaeth i'r Aelodau - iawn roedd angen sefydlu Cymru well ond beth oedd wrth wraidd y gwelliannau? Talcen caled weithiau, eraill yn fwy parod i wrando. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Gymdeithas cynhyrchwyd Beibl Cymraeg mewn Braille a Beibl Cymraeg/Sbaeneg i'w ddefnyddio ym Mhatagonia. Datblygiad pwysig arall oedd creu Canolfan Mari Jones yn Eglwys Llanycil ger y Bala. Yn 1800 cerddodd Mari Jones, 16 oed o Lanfihangel-y-pennant, yn droednoeth am 26 milltir i'r Bala i brynu Beibl Thomas Charles gyda'r hanes yn ysbrydoli sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804. Roedd Eglwys Beuno Sant, Llanycil wedi bod ar gau ers rhai blyneddodd a phan roddodd yr Eglwys yng Nghymru'r adeilad ar werth, fe'i prynwyd gan Gymdeithas y Beibl ac mae bellach yn ganolfan treftadaeth i hanes y Gymdeithas a rhan Mari Jones yn yr hanes.



Drwy gydol ei dymor gyda'r Gymdeithas roedd Watcyn yn pregethu bob Sul ac yn bwrw gofal dros eglwys Burry Green ar Benrhyn Gŵyr. Mae'n cydnabod bod hwn yn adeg hapus a diddig ac y byddai'n fodlon aros yn y swydd tan ei ymddeoliad. Yna fe ddaeth yr alwad o Geredigion ac mewn ffordd fe gyfannwyd y cylch gyda Watcyn nôl yn weinidog ar gyfres o gapeli - a hynny ar ei gyfaddefiad ei hun yn gymharol hwyr yn ei yrfa. Fe'i sefydlwyd nos Wener, Hydref 13eg, yng Nghapel y Garn yng nghwmni aelodau'r ofalaeth sy'n cynnwys, wrth gwrs, Nasareth, Tal-y-bont a Rehoboth, Taliesin.

A beth nawr yw ei gynlluniau a'i obeithion am yr ofalaeth? Oes rhaid dweud fod hi'n gyfnod anodd, Cristnogaeth ar drai, mynychwyr yn heneiddio ac yn prinhaus? Mae Watcyn ei hun yn derbyn fod amser yn brin ond mae yn obeithiol ac mae'n sefydlu'r gobaith ar ddau beth. Yn gyntaf – a dyma ni eto – y gair a'n hadnabyddiaeth ni o'r gair. I'r perwyl hyn mae eisoes wedi cychwyn grŵp astudio'r Beibl a materion crefyddol yng nghapel y Garn. Yn ail, mae am gychwyn proses o holi a yw ein capeli yn fannau agored, croesawgar ac esmwyth ac yn y broses mae'n cymharu capeli i ddy. Mae ein tai yn esmwyth a chynnes ond beth am ein capeli? Yn greiddiol pa fath o dai y dylai ein capeli fod i wynebu her yr unfed ganrif ar hugain? Tŷ mewn *gated community* sy'n saff ac yn ddiogel o fewn ei ffiniau ac yn cau pobl allan, neu *show home* sy'n arddangos y gorau ac yn creu awydd i rannu a thyfu'n rhan o'r cartref?

Croeso i'r Parch Dr Watcyn James, gŵr y gair sy'n amlwg yn barod i dorchi llewys i gyfrannu'n ysbrydol i'n cymuned.

GIE

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

Cynhaliwyd cyfarfod deufisol Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed ar 8fed o Dachwedd. Mae gan y Cyngor nifer o faterion sy'n dwyn ei sylw ar hyn o bryd.

Palmant yn y Gymuned

Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgyrchu am balmant newydd i gysylltu Glandyfi (a gafodd balmant rhagorol fel rhan o'r gwaith i sythu'r A487 yno) â Ffwrnais am nifer o flynyddoedd. Roedd y Cyngor wedi cael gwybod bod cynlluniau newydd ar gyfer y prosiect yn cael eu llunio a fyddai'n rhan o achos busnes ar gyfer y gwaith. Fodd bynnag, cafwyd siom yn y cyfarfod pan dderbyniwyd llythyr gan Mr Richard Morgan, Pennaeth Cynllunio yn Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru, yn nodi nad oedd y prosiect yn sgorio'n ddigon uchel yn erbyn meini prawf y Llywodraeth ac felly nad oedd modd bwrw ymlaen ag ef ar hyn o bryd. Penderfynodd y Cyngor fynegi eu siom wrth y Gweinidog Trafnidiaeth, Mr Ken Skates, ac i gysylltu ag Elin Jones AC a Ben Lake AS i godi ymwybyddiaeth o benderfyniad y Llywodraeth.

Lle Chwarae

Mae'r Cyngor yn bwriadu creu lle chwarae i blant ar dir y RSPB sy'n ffinio maes parcio Ffwrnais Dyfi ac mae'r gwaith o greu llwybrau ar y

safle eisoes wedi dechrau. Ymunodd Mr David Anning o Warchodfa Natur RSPB Ynys Hir â'r cyfarfod i esbonio bod y stormydd diweddar wedi achosi difrod i goeden ar y safle. Er diogelwch y cyhoedd y mae'r RSPB wedi cau'r llwybr nes bod modd gwneud gwaith ar y goeden. Trafodwyd hefyd gynnydd yn y broses o gael prydles ar gyfer y safle a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ymgymryd â gwaith pellach arno. Bydd y Cyngor a'r RSPB yn parhau â'r trafodaethau hyn cyn gynted â phosib.

Cadair Eisteddfodol Ysgol Eglwys-fach

Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn ymholiad gan Mr John Griffiths, Fferm Ffwrnais, ynglŷn â'r gadair Eisteddfodol a oedd yn sefyll yn Ysgol Eglwys-fach cyn iddi gau. Nid yw'n glir i ble yr oedd y gadair wedi mynd yn dilyn cau'r Ysgol ac mae Mr Griffiths yn awyddus i ddarganfod ei lleoliad. Roedd sawl aelod o'r Cyngor yn cofio'r gadair, ond, yn anffodus, doedd neb yn gwybod beth oedd wedi digwydd iddi ar ôl gwerthu adeilad yr Ysgol. A oedd wedi symud i Ysgol Llangynfelyn gyda'r plant neu a oedd wedi'i gwerthu gyda chynnwys yr Ysgol? Efallai y gallai darllenwyr craff Papur Pawb daflu goleuni ar y dirgelwch? Ceir cysylltu â'r Cyngor ar clerc@ysguborycoedcommunitycouncil.co.uk. Byddai'r Cyngorwyr yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth!

Ffair y Neuadd

Tafliwyd cysgod dros Ffair Nadolig Neuadd Goffa Tal-y-bont eleni wrth i'r newyddion bod Janet Llwynglas, aelod ffyddlon o'r Pwyllgor Rheoli, wedi colli ei gŵr Alun y noson cynt. Soniodd Bob Williams y Cadeirydd am y golled wrth annerch y dorf, ac anfonodd ein cofion cynnes at y teulu. Cyfeiriodd hefyd at gefnogwyr gweithgar eraill oedd yn yr ysbyty neu'n orweddog gan ddymuno pob gwellhad iddynt.

Mae Pwyllgor y Neuadd yn ddiolchgar iawn bob blwyddyn am gefnogaeth a haelioni mudiadau a busnesau lleol wrth iddynt roi o'u

hamser prin i gynnal stondinau amrywiol. Llwyddwyd eleni eto i godi dros £1,050 a fydd yn caniatáu i'r Neuadd gadw'r costau llogi ar lefel resymol am flwyddyn arall. Cefnogwyd y Ffair gan Bwyllgor y Sioe a'r Treialon Cŵn Defaid, Merched y Wawr, Papur Pawb, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont, y Clwb Ffermwyr Ifanc, Y Lolfa a Ruth Jên. Roedd yn chwith heb stondin Sefydliad y Merched gan fod y gangen wedi dirwyn i ben, a mawr yw ein diolch iddynt am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

Diolch hefyd i'r rhai fu'n darparu ac yn gweini'r te ac yn cyfrannu at y gwobrau raffl niferus.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli nos Fercher, 13 Rhagfyr pan fydd yr aelodau yn edrych yn ôl gyda boddhad ar flwyddyn arall o weithgarwch.

Cofiwch gadw eich dyddiadur yn glir ar nos Sadwrn 3 Mawrth 2018 pan fydd Bois y Gilfach yn darparu'r adloniant yn Noson Hwyl Ddewi.



'Drycha Dad!'

Proff yn y Pyb

Cynhaliwyd y gyntaf o gyfres o ddarlithoedd 'Proff yn y pyb' yn y Llew Gwyn, nos Fercher, 15 Tachwedd. Croesawyd y darlithydd gwadd, Dr Peter Dennis, Maes y felin, Tal-y-bont gan y trefnydd Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont.

Testun y ddarlith oedd 'Strategaeth Ecolegol ar reoli llifogydd. Bu Peter yn cyd-weithio ar gywaith cynhwysfawr yng Ngogledd Ddwyrain yr Alban ar reoli llifogydd.

Cafwyd enghreifftiau ganddo o'r amryw fesurau bach a mawr a ddefnyddiwyd ac sy'n bosibl eu defnyddio a'u gweithredu mewn ardaloedd eraill.

Roedd y dulliau rheoli yma'n cynnwys rhai traddodiadol a chyfoes a nododd eu manteision a'u hanfanteision. Clywsom am arferion da a weithredir wrth reoli llif y dŵr o'r ucheldir ac am y problemau a gyfyd wrth i'r dŵr gario pridd a mineralau o'r tir i lawr i'r aberoedd. I gloi'r noson cafwyd sesiwn diddorol o holi cwestiynau.



Rhwng Dau Glawdd
Tom Jones Plascoch

Eisiau llenwi hosan 'Dolig?'

Ar gael i'w brynu mewn siopau cymraeg lleol am £8 neu eboostiwrch thjones@btconnect.com

Elw tuag at elusennau cymreig

Cletwr dros yr Ŵyl

Erbyn ichi ddarllen hwn bydd maes parcio Cletwr newydd ar agor (croesi bysedd!) Bydd lle i 18 o geir, gan gynnwys dau ar gyfer pobl lai abl.

Mae'r caffi a siop newydd yn fwy poblogaidd nag erioed. Dyna'r rheswm am yr hysbyseb am gogydd rhan-amser ychwanegol. Os ydych chi'n nabod unrhyw un sy'n addas, rhwch wybod iddyn nhw. Rydym yn chwilio hefyd am fwy o wirfoddolwyr i gefnogi'n tîm o staff - ac i gael hwyl! Mae gwirfoddoli yn Cletwr yn gyfle gwych i helpu'r gymuned, cwrdd â'ch cymdogion a gwneud ffrindiau newydd. Mae mwyafrif ein gwirfoddolwyr yn helpu yn y siop, a chaffi a'r gegin, ond mae tomen o bethau eraill i'w gwneud o bryd i'w gilydd. Unrhyw un sy'n joio glanhau ffenestri? Does dim angen profiad arbennig, rhoddir hyfforddiant lle bo angen. Mae tîm yn gweithio ar hyn o bryd ar gynlluniau ar gyfer tirlunio'r safle, gan gynnwys gardd ddeniadol tu ôl i'r adeilad. Bydd angen pobl sy'n gallu gwneud dodrefn a'r gwelyau wedi'u codi, ac i blannu'r planhigion. Os oes diddordeb gennych mewn gwirfoddoli o unrhyw fath cysylltwch â Chletwr ar unwaith.

Fe fydd yr wythnosau nesaf yn brysur iawn yn y siop. Trefnir llwyth o ddigwyddiadau: sgysiau, sesiynau crefftiau ac wrth gwrs ymweliad gan Siôn Corn ei hun ar Noswyl Nadolig. Mae'r caffi yn cynnig yr enwog 'Cinio Dolig mewn Brechdan', a

mins-peis cartref blasus. Rydyn ni'n derbyn archebion ar gyfer cig a llysiau i'r 'Dolig - cig o Rob Rattray a Phorchell, Bow Street, a llysiau o'n cyflenwr arferol. Bydd popeth ar gael i'w codi o'r siop ar Noswyl Nadolig - dim angen ichi ymladd yn erbyn y tyrfaoedd yn y dre! Ffurflenni archebu ar gael wrth y siop.

A beth sy'n well dros y Nadolig na chanu carolau? Bydd grŵp yn mynd o gwmpas yr ardal ar nos Wener 22ain, yn canu carolau traddodiadol a chodi arian ar gyfer elusennau lleol. Dewch yn llu.

Nadolig Llawen i chi i gyd oddi wrth bawb yn Cletwr

YNEISIAU: COGYDD/ES RHAN AMSER

16 awr yr wythnos ynghyd â chyflenwi dros wyliau / salwch

Mae arnom angen i chi fod yn frwdfrydig ac yn barod i ddysgu, gallu gweithio gyda gwirfoddolwyr, a mwynhau bod yn rhan o'n tîm siop a chaffi cymunedol sy'n tyfu'n gyflym.

Nid yw profiad yn hanfodol gan fod rhoddir hyfforddiant llawn, a darparir ffurfwisg.

Mae'r Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Sul 10 Rhagfyr

Anfonwch lythyr o ddiddordeb drwy e-bost (cletwr@cletwr.com) ynghyd â CV cyfredol er sylw Jane Leivers neu ddewch i mewn i Cletwr.

Cletwr

Cletwr, Tre'r Ddôl, Ceredigion SY20 8PN
01970 832113 cletwr@cletwr.com

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2017 – dros £18,700 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: cronfaeleri.cymru

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 15fed 2018

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'



CFfl Tal-y-bont a'r Cylch

Meimo Cân

Cynhaliom noson o bigion yr Eisteddfod yn y Neuadd Goffa ar 14 Tachwedd wedi llwyddiant yr aelodau yn Eisteddfod y Sir.

Arweinydd y noson oedd cadeirydd y clwb, Rhydian Evans, a chawsom ein diddanu gan y canlynol:

Deuawd Cerdd Dant - Beca a Cadi Williams

Adrodd Digri - Oisin Lludd Pennant

Emyn Nofis - Harri Jones

Unawd Offerynnol - Elain Tanat

Unawd - Cadi

Unawd Cerdd Dant - Beca

Unawd Offerynnol - Gronw Downes

Ensemble Lleisiol - Beca, Cadi, Cari Davies ac Elain

Unawd o Sioe Gerdd - Beca

Sgets - Teleri Morgan, Dewi Jenkins a Steffan Nutting

Meimio Cân



Ensemble lleisiol

Triawd Doniol - Richard John, Dewi a Steffan
Parti Deulais



Parti Deulais

Yna ar y 18fed, aeth criw ohonom i Landudno, i Eisteddfod Cymru. Bu Beca a Cadi, a'r parti deulais yn cynrychioli Ceredigion yn yr Eisteddfod, a llwyddodd y merched i ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y deuawd cerdd dant. Llonyfarchiadau iddynt, a diolch yn fawr i'r holl hyfforddwy am eu cymorth.

Llonyfarchiadau i Trystan Davies am ddod yn ail yng nghystadleuaeth paratoi oen CFfl Cymru yn y Ffair Aeaf.

Betsan Siencyn

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Swydd Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yn dilyn yr hysbysiad diweddar ar gyfer swydd Clerc y Cyngor, esboniwyd nad oedd y Cyngor wedi llwyddo i benodi Clerc newydd. Felly, cytunodd y Clerc presennol, Lowri Jones, i barhau yn y swydd yn y tymor byr hyd nes y gellir penodi Clerc newydd. Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd, gellir cysylltu â'r Clerc am sgwrs anffurfiol ac am fanylion y swydd. e-bostiwch cyngorcam@gmail.com i ymholi neu i drefnu sgwrs.

Goleuadau Stryd

Ers misoedd, mae'r Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda Tai Ceredigion a Chyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r diffyg golau wrth fynedfa Maes y Deri, ar y llwybr troed ger parc chwarae'r Cae Bach. Mae'r mater wedi bod yn destun pryder i drigolion yr ystâd a'r Cyngor. Mae Tai Ceredigion a'r Cyngor Sir wedi cytuno i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Cyngor ar y safle ym mis Rhagfyr i drafod datrysiadau posib.

Cymorthdaliadau 2017/18

Nodwyd y bydd yr Is-bwyllgor Ariannol yn cwrdd ym mis Ionawr i drafod ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Cytunwyd y dylai ceisiadau gynnwys mantolen diweddar, ynghyd â disgrifiad o'r gweithgareddau, y nifer y bobl byddai'n elwa, ynghyd â manylion unrhyw brosiectau arbennig (os yn gymwys). Y dyddiad cau yw 11 Ionawr, 2018. Gellir danfon ceisiadau at y Clerc, drwy e-bost (cyngorcam@gmail.com), neu trwy'r post: Ebb Tide Annexe, Princess Street, Borth, SY24 5JP.

Cyflwyniad: Ail-gychwyn Clwb Ieuencid Tal-y-bont

Croesawyd Lowri Evans i gyfarfod diwethaf y Cyngor. Esboniodd Lowri ei bod yn ymchwilio i'r posibiliad o ail-gychwyn clwb ieuencid yn Nhal-y-bont. Nododd fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar nos

Wener, 1 Rhagfyr, yn Neuadd Goffa Tal-y-bont er mwyn mesur diddordeb, trafod syniadau, a denu gwirfoddolwyr. Os oes diddordeb gyda chi i wirfoddoli, neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Lowri: lowri_masonevans@hotmail.com

Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion - Ymgynghoriad: Newidiadau Arfaethedig i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff

Mae'r Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Nodwyd fod y sir yn perfformio'n eithaf da o ran ei thargedau, ond gall hanner y gwastraff sy'n cael ei roi mewn sachau duon fod wedi ei ailgylchu neu'i roi yn y bin gwastraff bwyd.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- parhau i gasglu deunydd ailgylchu bob wythnos mewn sachau clir;
- parhau i gasglu gwastraff bwyd bob wythnos. Parhau i ddarparu cad i'r biniau i'w ddefnyddio, ond i roi leinwyr gwastraff bwyd i'r cad i'w cegin am ddim. Bydd disgwyl i bawb ddefnyddio'r leinwyr yma;
- darparu bocs ar gyfer poteli a jariau gwydr, a'u casglu unwaith bob tair wythnos i'w hailgylchu.
- casglu sachau duon unwaith bob tair wythnos (o bosib, gydag uchafswm o dri sach);
- cynnig casgliad arbennig unwaith bob pythefnos ar gyfer cewynnau a gwastraff tebyg ar gyfer y bobl sydd ei angen.

I weld yr holl gynigion, ac i ymateb i'r ymgynghoriad, ewch i:
<https://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/Biniau-Ailgylchu/ymgy-sylltiad-ac-ymgynghoriad-cyhoeddus-ar-wastraff/Pages/default.aspx>

Os hoffech gopi papur, ffoniwch 01545 572572 neu e-bostiwch gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk .

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener, 22 Rhagfyr 2017.

Colofn Elin

Roedd 2017 yn flwyddyn ddiddorol a phrysur, ac un o'r uchafbwyntiau oedd gweld canlyniad yr Etholiad Cyffredinol sydyn ym mis Mehefin, pan etholwyd Ben Lake, Aelod Seneddol ieuengaf Cymru, a llais newydd dros Geredigion yn San Steffan. Mae'r misoedd cychwynnol hyn o weithio gyda'n gilydd dros Geredigion wedi bod yn ffrwythlon, a edrychaf ymlaen at gydweithio'n bellach dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae ystod eang o ymgyrchoedd wedi bod ar waith, gan gynnwys sicrhau bod darpariaeth Band Eang ar draws y sir yn gwella, cydweithio gyda gwirfoddolwyr yr RNLI i geisio arbed israddio'r bad achub yng Nghei Newydd, a phwyso ar Gyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod cynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau i'r henoed yn ein sir. Rwyf hefyd wedi gweithio gydag etholwyr i ddwyn pwysau ar y Bwrdd Iechyd i gryfhau gwasanaethau yn y clinig llygaid yn Aberystwyth ac i ddychwelyd gwasanaethau clinig amrywiol i Llambed.

Fel pob blwyddyn, fe fu nifer o golledion i'n cenedl ac i Geredigion. Yn ddiweddar, fe fu farw cyn-faer Aberteifi, Melfydd George. Roedd ef yn wladwr ac yn wladgarwr, yn gymeriad annwyl ac yn llawn direidi.

Roedd hi'n frainc i ymuno â Merched y Wawr i ddathlu 50 mlynedd o'r mudiad, ac wrth gwrs roedd cynnal arddangosfa Dathlu'r Aur yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfle gwych i groesawu cymaint o aelodau o Geredigion i'r Senedd.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yng Ngheredigion.

Elin Jones AC



Y Gair Olaf



Rwy'n ysgrifennu'r Gair Olaf hwn yng Nghaerdydd. Yma ar ymweliad teulu ydw i ond ar yr un pryd yn manteisio ar y cyfle i fwynhau arddangosfeydd yr Amgueddfa Genedlaethol, rhai orielau bychain ac i gael blas ar ddanteithion y brifddinas.

Ond, wrth grwydro at ganol y ddinas ar Noson Calan Gaeaf, cyfarchwyd fi gan lanc ifanc o Dal-y-bont. Rhyfedd! Mae'r byd yn fach. Ac er mor ddeniadol a dymunol yw'r ddinas, atgoffwyd fi o dawelwch, heddwch a harddwch ein pentref ni.

Rwy'n edrych ymlaen at gyfnewid y goleuadau llachar am noson ddu, ddigwmwl yn gwylio'r sêr uwchben a'r ystlumod yn gwibio a disgyn dros y lôn a'r afon gyferbyn.

Rwy'n awyddus hefyd i dreulio ychydig mwy o amser gyda'm cymdogion cyn iddynt symud o'r ardal. Mae'n ddeng mlynedd a mwy ers iddynt ein croesawu ni i'r pentref ac yn hirach fyth ers iddynt hwythau ddod yno i fyw. Yn sicr, mi fyddaf yn gweld eu heisiau, yn dymuno'n dda iddynt wrth adael, ac yn gobeithio y gallaf ddilyn eu hesiampl drwy groesawu'r newydd-ddyfodiaid fydd yn symud i'n plith.

Yr wythnos ddiwethaf cefais fy nghyflwyno i gwpl sy'n byw pen uchaf lôn. Des e i'w hadnabod drwy ffrind inni sy'n byw yn yr Alban! Rwy'n teimlo cywilydd braidd fy mod wedi cerdded heibio i'w tŷ nhw bron bob bore heb ddweud mwy na "helo" neu godi llaw.

Mae ein pentre ni yn gymuned. Ac mae cyfrifoldeb arnom ni i gadw'r gymuned honno yn fyw, i ddod i 'nabod ein gilydd ac i fod yn gymdogion sy'n talu sylw i anghenion ein cyd-drigolion.

Ruth Dennis

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Cymorthdaliadau 2017/18

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf. Dylid danfon ceisiadau at:

Lowri Jones

Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
d/o Ebb Tide Annexe, Princess Street, Borth, SY24 5JP
cyngorcarn@gmail.com

Dyddiad Cau: **Dydd Iau, 11 Ionawr 2018**

GWASANAETH CAROL A CHANNWYLL

Capel Saron, Llanbadarn Fawr
Noswyl Nadolig - 24 Rhagfyr 2017
am 4.00 o'r gloch
Croeso Cynnes i Bawb!



Eglwys Efengylaidd
Aberystwyth

www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU



Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocs a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDSODDWR
IN PEOPLE | Mewn Pobl

CHWARAEON

Cap dros Gymru

Llongyfarchiadau i Rhys Norrington-Davies, Tŷ'n-y-cae, Tal-y-bont, ar ennill capiau wrth chwarae i dîm pêl-droed dan-21 Cymru ddechrau Tachwedd.

Enillodd Rhys, sy'n chwarae yn safle'r cefnwr chwith, ei gap cyntaf fel eilydd yn y gêm yn erbyn Bosnia ym Mangor ar 12 Tachwedd.

Galwyd ef i'r cae ar hanner amser ac mae'n amlwg iddo greu cryn argraff ar y rheolwr Rob Page oherwydd pedwar diwrnod yn ddiweddarach dewiswyd ef i ddechrau'r gêm yn erbyn Romania. Chwaraeodd Rhys yn gampus drwy gydol y gêm.



Collwyd yn erbyn Bosnia ond llwyddodd Cymru i chwarae gêm ddi-sgôr yn erbyn Romania, sydd ar frig grŵp Pencampwriaeth dan-21 Ewrop. Rhys greodd gyfle orau'r gêm i Gymru wrth iddo groesi'r bêl i'w gapten, Harry Wilson, ond methodd hwnnw â rhwydo.

Bu Rhys, sy'n fab i Patrick a Lowri, ar lyfrau Academi Aberystwyth ac Abertawe, cyn arwyddo i Sheffield United yn yr haf.

Mae'n debyg mai dilyn hen draddodiad teuluol y mae Rhys, gan fod ei dad-cu yn amddiffynnwr cadarn gyda thimau Taliesin a Thal-y-bont flynyddoedd yn ôl. Bydd sawl un o gefnogwyr pêl-droed lleol yn cofio Gwyn 'Titch' Evans ac ambell i flaenwr yn dal i deimlo'r cleisiau!

Tad-cu balch oedd yn eistedd yn yr eisteddle ym Mangor gyda'i fab-yng-nghyfraith yn gwylio Rhys yn gwisgo'r crys coch.

**argraffu da
am bris da**

yLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

yBlac 01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Marathona

Dyma Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont, yn ystod râs Marathon Eryri a gynhaliwyd ar 28 Hydref. Tynnwyd y llun wedi i Ceris redeg deunaw milltir ac mae'n amlwg o'i hymarweddiad nad oedd 'na broblem iddi orffen yr wyth milltir a oedd i ddilyn. Yn wir, gorffennodd y râs mewn 4 awr, 27 munud a 47 eiliad gan ddod yn 26ain yn ei chategori.

Nid oes pall ar frwdfrydedd Ceris i gystadlu mewn rasmus rhedeg gan iddi redeg râs 10 cilometr Betws y Coed ar 11 Tachwedd a ras 10 milltir ym Mhenbre ar 19 Tachwedd.



Hyfforddiant Llwybr Llwynog

Pan ddechreuwyd sesiynau sgiliau beicio yn Ysgol Tal-y-bont ym mis Mai 2017, y syniad oedd i gynyddu'r nifer o blant a gystadlodd yng Ngŵyl Seiclo Aber ar ddiwedd y mis, gan nad oedd llawer o'r ardal wedi cystadlu yn ystod y blynyddoedd cynt. Bwriad arall oedd i ddarparu cyfle i blant yn ardal *Papur Pawb* i gymryd rhan mewn gweithgareddau seiclo wedi eu trefnu; yn ogystal â'r ochr gystadleuol, a fyddai'n annog rhagor o blant i seiclo fel rhan o fywyd actif, gan gynnwys seiclo i'r ysgol.

Profodd y sesiynau yn ddigon poblogaidd i Hyfforddiant Llwybr Llwynog allu cynnal dau sesiwn pob bore Sadwrn, ar gyfer hyd at wyth seicliwr ar y tro, un i ddechreuwyd ac un i rai canolradd. Yn fras, maent ar gyfer plant rhwng 5 a 10 oed, ond mae'n seiliedig ar allu ac nid oedran. Mae croeso i bawb ddod cyn belled a bod beic, helmed a'r gallu i reidio beic heb "stabalisers" na chymorth gan bob unigolyn.

Mae'r sesiynau yn dilyn amrediad eang o sgiliau, o rai elfennol fel mynd a dod oddi ar y beic, a fyddai'n helpu'r reidwyr o ddydd i ddydd, i sgiliau mwy cymhleth yn ymwneud â rasio, megis reidio mewn grŵp ac ymarferion cychwyn. Caiff y sesiynau eu rhedeg yn ystod tymor ysgol, ac maent yn cael eu cynllunio er mwyn datblygu sgiliau. Yn bwysicach na dim, yr amcan yw cael hwyl diogel ar y beic.

Eleni, cymerodd mwy o blant o Ysgol Tal-y-bont ran yng Ngŵyl Seiclo Aber na chynt, a bu'r plant a gymerodd rhan yn y sesiynau hefyd yn rasio beiciau mynydd yn rasys Clwb Beicio Ystwyth yn ystod yr Haf, ac ambell waith yng nghyffres Traws-Seiclo Cymru yn yr Hydref.

Yn ogystal â chystadlu, mae data a ddarparwyd gan Sustrans yn dangos fod y nifer o ddisgyblion sy'n beicio i'r ysgol wedi cynyddu o 17% dros y flwyddyn diwethaf, a bu cynydd o 250% mewn plant yn beicio'n wythnosol, ar ôl ysgol ac ar y penwythos.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddai'n wych gweld cynnydd pellach yn y nifer o blant sy'n beicio i'r ysgol, yn beicio er mwyn hwyl, yn cymryd rhan mewn sesiynau sgiliau ac yn cystadlu. Mae'n bosib y bydd cyfle i gynnal rhagor o sesiynau yn ystod gwyliau ysgol, a sesiynau ar gyfer reidwyr mwy medrus, i ddatblygu sgiliau priodol ar gyfer rasio. Efallai un diwrnod, bydd reidiwr arall fel Gruffudd Lewis yn byw yn yr ardal.

Malcolm Dines

